WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Arolygiad Arbennig – Rhoi Trefniadau Diogelu ar Waith

## Cyngor Sir Penfro

**Blwyddyn archwilio:** 2012-13

**Cyhoeddwyd:** Rhagfyr 2012

**Cyfeirnod y ddogfen:** 572A2012

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Penfro fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.
Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n berthnasol, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Jane Holownia, Steve Barry, Rod Alcott, Ena Lloyd a David Rees.

# Cynnwys

Yn bennaf o ganlyniad i brosesau adolygu allanol, mae'r Cyngor bellach yn fwy ymwybodol o faterion diogelu ac wedi gwneud rhai newidiadau cadarnhaol, ond drwy fethu ag ymateb yn ddigon cyflym a thrwyadl methodd â chyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Datganiad gan yr Archwilydd Cyffredinol | 4 |
| Argymhellion | 4 |
| Cefndir | 4 |
| Adroddiad manwl | |
| O ganlyniad i adroddiadau allanol, mae'r Cyngor wedi cyflwyno polisïau a gweithdrefnau sydd wedi gwella ymwybyddiaeth o faterion diogelu ond nid yw wedi ymdrin ag achosion sylfaenol methiannau | 9 |
| Mae'r Cyngor yn gweithredu'n rhy araf o ran ymdrin â materion difrifol megis defnyddio ystafelloedd ystyried ("timeout") ac nid yw'n rhoi polisïau a gweithdrefnau newydd ar waith yn effeithiol | 13 |
| Prin yw'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor ers mis Ionawr 2012 o ran atgyfnerthu rôl herio a sicrhau aelodau | 19 |
| Atodiadau | |
| Argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, Ionawr 2012 | 25 |
| Methodoleg | 26 |

# Adroddiad cryno

## Datganiad gan yr Archwilydd Cyffredinol

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi canlyniadau fy arolygiad arbennig o Gyngor Sir Penfro (y Cyngor) o dan Adran 21 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur). Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i mi grybwyll unrhyw fater lle credaf, o ganlyniad i'r arolygiad, bod y Cyngor yn methu â chydymffurfio â gofynion Rhan 1 o'r Mesur (gwella llywodraeth leol). Er nad yw fy arolygiad wedi gwneud i mi amau bod y Cyngor wedi cydweithredu â'r Bwrdd na'r potensial sy'n bodoli, nododd bryderon difrifol a pharhaus. Felly, o ran trefniadau'r Cyngor ar gyfer gwella trefniadau diogelu, deuthum i'r casgliad fod y Cyngor wedi methu â chyflawni ei ddyletswydd statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant.

**2.** Rwyf yn ymwybodol, ers i'm hadolygiad gael ei gwblhau, fod Cadeirydd Bwrdd Cynghori'r Gweinidog Sir Benfro wedi ysgrifennu at yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr ar 11 Hydref 2012 yn rhoi 'adroddiad cyffredinol gadarnhaol' ar y sefyllfa sydd ohoni. Amlygodd llythyr y Cadeirydd y ffaith bod y Cyngor wedi cydweithredu â'r Bwrdd a nododd fod y Bwrdd o'r farn bod potensial ar gyfer newidiadau sylweddol. Rwyf hefyd yn ymwybodol o newidiadau diweddar ar lefel uwch reoli a allai gefnogi gwelliannau. Fodd bynnag, mae'r Cyngor ei hun yn cydnabod bod mwy i'w wneud er mwyn sicrhau bod prosesau gweithredol yn cael eu newid.

**3.** Hoffwn ddiolch i'r Cyngor am y ffordd agored a thryloyw y mae aelodau a swyddogion wedi ymateb i'm harolygiad. Rwy'n falch bod y Cyngor yn croesawu'r capasiti ychwanegol sy'n deillio o waith goruchwylio allanol parhaus. Byddaf yn parhau i gynnig y fath oruchwyliaeth a chymorth o ran llywodraethu meysydd allweddol megis diogelu.

## Argymhellion

**4.** Er mwyn helpu'r Cyngor i wneud y gwelliannau gofynnol, argymhellaf y dylai Gweinidogion Cymru gynorthwyo'r Cyngor fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **A1** | Arfer eu pwerau o dan Adran 28 o'r Mesur gan roi pwyslais arbennig ar gefnogi trefniadau llywodraethu, craffu a sicrhau. |

## Cefndir

**5.** Canfu adroddiad[1] a gyhoeddwyd gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) ym mis Awst 2011 fod ansawdd gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn anfoddhaol a bod gallu'r Cyngor i wella yn anfoddhaol. Yn benodol:

[1] *Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc yng Nghyngor Sir Benfro*, Estyn, Mehefin 2011 (cyhoeddwyd mis Awst 2011)

- roedd methiant corfforaethol systemig i ymateb yn ddigonol i faterion diogelu;
- nid oedd ansawdd y wybodaeth roedd swyddogion yn ei rhannu gydag aelodau etholedig yn galluogi iddynt herio perfformiad gwasanaethau ac ysgolion yn ddigonol;
- nid oedd trefniadau rheoli perfformiad yn y gorffennol wedi llwyddo i sicrhau gwelliannau yn erbyn rhai dangosyddion allweddol penodol;
- roedd gwerth am arian yn annigonol.

**6.** Hefyd ym mis Awst 2011, cyhoeddodd Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) adroddiad[2] yn dilyn ymchwiliad ar y cyd ganddynt i'r ffordd y cafodd honiadau o gam-drin proffesiynol eu trin a'u rheoli a'r trefniadau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant o fewn y gwasanaethau addysg gan y Cyngor. Asesodd rheoleiddwyr y ffordd y cafodd sampl o 25 o ffeiliau achos a ddaliwyd gan wasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau addysg a gwasanaeth adnoddau dynol y Cyngor eu trin. Nododd yr adroddiad hwn fethiannau sylweddol mewn trefniadau, nad oedd y Cyngor yn ymwybodol ohonynt a daeth i'r casgliad canlynol:

- bu diffyg gwaith goruchwylio gan aelodau etholedig a swyddogion ar y lefel uchaf o fewn yr awdurdod mewn perthynas â'r ffordd y cafodd achosion o gam-drin proffesiynol honedig o fewn y gwasanaethau addysg eu rheoli a'u trin;
- mae'r diffyg trefniadau llywodraethu effeithiol mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn plant yn adlewyrchu'r methiannau penodol o fewn diwylliant yr awdurdod yn gyffredinol;
- roedd y diffygion yn hirsefydledig, yn systemig ac yn arwydd o natur sylfaenol y problemau hyn a methiannau o fewn yr awdurdod.

**7.** Ym mis Hydref 2011, o ganlyniad i arwyddocâd y methiannau, penododd Gweinidogion Cymru Fwrdd Gweinidogol Sir Benfro (PMB). Rôl PMB oedd asesu cynaliadwyedd newid a'r rhagolygon hirdymor ar gyfer gwella yn y Cyngor, a rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar gynnydd ac ar yr angen am unrhyw gamau gweithredu pellach.

**8.** O ganlyniad i'r materion a nodwyd yn ymchwiliadau Estyn ac AGGCC, cynhaliwyd adolygiad ehangach o arfer rhyngasiantaeth yn Sir Benfro. Ym mis Tachwedd 2011, cyhoeddodd Estyn, AGGCC, Arolygiaeth Heddlu Ei Mawrhydi (HMIC), Arolygiaeth Iechyd Cymru (HIW) ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (HMIP) eu canfyddiadau mewn adroddiad ar y cyd[3]. Cydnabu'r adroddiad rai agweddau cadarnhaol ar waith rhyng-asiantaeth ond amlygodd fethiannau mewn trefniadau, a oedd yn golygu nad oeddent yn llwyddo i ddiogelu ac amddiffyn plant yn ddigonol. Yn arbennig, nododd yr adroddiad ddiffyg arweinyddiaeth strategol 'a oedd yn cyfrannu at ddiwylliant

[2] *Ymchwiliad ar y cyd i'r ffordd y rheolir ac yr ymdrinnir â honiadau o gam-drin proffesiynol a'r trefniadau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant mewn gwasanaethau addysg yng Nghyngor Sir Penfro*, Estyn ac AGGCC, Awst 2011

[3] *Adolygiad yr arolygiaethau ar y cyd o arferion a threfniadau rhyng-asiantaethol i ddiogelu ac amddiffyn plant yn Sir Benfro*, AGGCC, Estyn, HIW, HMIC, HMIP, Tachwedd 2011

cyffredinol lle roedd hi'n anodd i unrhyw un o'r asiantaethau unigol cysylltiedig gyflawni ei chyfrifoldebau i ddiogelu ac amddiffyn plant yn effeithiol mewn achosion o gamdriniaeth broffesiynol honedig'.

**9.** Ar ôl cyhoeddi adroddiadau beirniadol gan arolygwyr yn ystod y cyfnod o fis Mehefin i fis Tachwedd 2011, cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol arolygiad arbennig o drefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor a chyflwynodd ei adroddiad ym mis Ionawr 2012[4].

**10.** Daeth i'r casgliad er bod y Cyngor yn arddangos rhai nodweddion cadarnhaol mewn perthynas â'i ddiwylliant a'i amgylchedd gweithredu, bod angen iddo wneud y canlynol:

- gwella goruchwyliaeth wleidyddol a rheoli a sicrhau bod pobl yn briodol atebol;
- egluro cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau a llywodraethu aelodau ac uwch swyddogion;
- hyrwyddo trefniadau herio effeithiol a rhoi trefniadau sicrhau ansawdd ar waith er mwyn sicrhau bod dulliau rheoli a goruchwylio yn effeithiol.

## Gweithgarwch diweddar

**11.** Ym mis Gorffennaf 2012, oherwydd pryderon parhaus, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau Gyfarwyddyd ffurfiol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a oedd yn rhesymol ym marn Cadeirydd y PMB er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau diogelu o dan Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002.

**12.** Cynhaliodd rheoleiddwyr waith dilynol rhwng mis Mai a mis Medi 2012:

- adolygodd AGGCC a HMIC sampl o ffeiliau achos yn ymwneud ag achosion honedig o gam-drin proffesiynol yn ystod y cyfnod o fis Ebrill 2011 i fis Ebrill 2012;
- adolygodd Swyddfa Archwilio Cymru gofnodion Gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor mewn perthynas â'r gweithwyr proffesiynol hynny y gwnaed yr honiadau yn eu herbyn;
- cynhaliodd Estyn ac AGGCC ymweliadau dirybudd â phedair ysgol ym mis Gorffennaf 2012 i fwrw golwg ar y trefniadau ar gyfer rheoli ymddygiad.

**13.** Ceir mwy o fanylion am ganlyniadau'r arolygiadau hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Mae gan gasgliadau'r adroddiadau sawl nodwedd gyffredin. Canfu pob un ohonynt dystiolaeth bod gweithdrefnau newydd ar waith, a rhai enghreifftiau o arfer cadarnhaol. Fodd bynnag, nodwyd ganddynt hefyd bod y broses o roi polisïau a gweithdrefnau ar waith yn araf ac yn anghyson, ac mae prin oedd yr effaith gadarnhaol. Roedd rhai o'r methiannau yn sylweddol. Er enghraifft, nododd yr arolygiadau ddiffyg eglurder o ran sut i roi polisïau trin cadarnhaol ar waith (yr hyn y gall neu na all athro ei wneud pan fydd yn rhaid ymyrryd yn gorfforol) a threfniadau anghyson, annigonol weithiau, ar gyfer ymdrin ag achosion honedig o gam-drin

[4] *Arolygiad Arbennig, Cyngor Sir Penfro,* Swyddfa Archwilio Cymru, Ionawr 2012

proffesiynol. Ddeuddeg mis ar ôl i reoleiddwyr nodi'r materion hyn gyntaf, nid oedd y Cyngor wedi rhoi trefniadau diogelu effeithiol ar waith o hyd. Nid oedd prosesau sicrhau ansawdd yn ddigon cadarn o hyd i nodi anghysondebau a gwendidau eraill mewn ffordd ddibynadwy nac i lywio gwelliant.

**14.** Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol oedd ailarolygu'r Cyngor ym mis Hydref 2012 er mwyn asesu'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r argymhellion a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Ionawr 2012. O ganlyniad i bryderon gan Weinidogion Cymru am y ffordd roedd y Cyngor yn gweithredu newid, gwnaed cais i gynnal yr ailarolygiad yn gynharach. Nod penodol yr ailarolygiad oedd penderfynu p'un a yw'r Cyngor wedi gwneud cynnydd digonol wrth ymdrin â'r angen i wella'r broses o reoli a llywodraethu trefniadau diogelu.

**15.** Mae'r Cyngor wedi profi cryn newid yn ystod y 12 mis diwethaf. Yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol, ffurfiwyd gweinyddiaeth newydd ym mis Mai 2012. Cafwyd Arweinydd newydd, Aelod newydd o'r Cabinet sy'n gyfrifol am Ddiogelu, a newidiwyd cadeiryddion y pwyllgor trosolwg a'r pwyllgor craffu. Mae'r aelodau etholedig wedi ceisio sicrhau rhywfaint o barhad drwy benodi cydweithwyr â rhywfaint o brofiad ym maes diogelu i uwch rolau er bod y rhan fwyaf ohonynt yn newydd i'w rolau a'u cyfrifoldebau penodol o ran diogelu. Yn ystod yr ymgyrch etholiadol, penododd yr aelodau Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol newydd. Cyhoeddwyd ymddeoliad y Cyfarwyddwr Addysg ddiwedd mis Medi 2012. O 16 Tachwedd 2012, trosglwyddodd y Cyngor y cyfrifoldeb dros addysg a phlant i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol newydd a ymgymerodd â'i ddyletswyddau llawn amser gyda'r Cyngor ym mis Medi 2012.

**16.** Ers i'n cyfweliadau ddod i ben yn ystod mis Awst 2012, mae'r Cyngor wedi rhoi gwybod am gynnydd pellach a wnaed mewn nifer o feysydd:

- Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol newydd yn dechrau gweithio'n llawn amser ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau diogelu'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant ar ddiwedd mis Medi 2012.
- Pennaeth Archwilio Mewnol newydd yn cael ei benodi gyda chylch gwaith i ddiwygio rhaglen waith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol fel bod mwy o sylw yn cael ei roi i faterion diogelu.
- Sicrhau mwy o gapasiti, er mwyn helpu i gyflymu'r agenda gwella trefniadau diogelu.
- Llunio cytundeb â Chyngor Sir Caerfyrddin er mwyn gweithredu gwasanaeth a rennir ar gyfer Gwella Ysgolion.
- Comisiynu fframwaith sicrhau ansawdd 'ysgolion mwy diogel'. Recriwtio gweithwyr cymdeithasol ychwanegol.
- Gweithio'n gadarnhaol gyda PMB ac wrthi'n cytuno ar ddull seiliedig ar risg o fonitro cynnydd sy'n ymdrin yn fwy effeithiol ag achosion sylfaenol y gwendidau a nodwyd yn 2011.

**17.** Gallai'r newidiadau hyn fynd i'r afael â llawer o'r gwendidau a nodwyd ar yr amod y canolbwyntir ar gyflawni a sicrhau yn hytrach na phroses.

## Casgliad

**18.** Daethom i'r casgliad, yn bennaf o ganlyniad i broses adolygu allanol, fod y Cyngor bellach yn fwy ymwybodol o faterion diogelu ac wedi gwneud rhai newidiadau cadarnhaol, ond drwy fethu ag ymateb yn ddigon cyflym a thrwyadl methodd â chyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant.

**19.** Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- o ganlyniad i adroddiadau allanol, mae'r Cyngor wedi cyflwyno polisïau a gweithdrefnau sydd wedi gwella ymwybyddiaeth o faterion diogelu ond nid yw wedi ymdrin ag achosion sylfaenol methiannau;
- mae'r Cyngor yn gweithredu'n rhy araf o ran ymdrin â materion difrifol megis defnyddio ystafelloedd ystyried ("timeout"), ac nid yw'n rhoi polisïau a gweithdrefnau newydd ar waith yn effeithiol;
- prin yw'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor ers mis Ionawr 2012 o ran atgyfnerthu rôl herio a sicrhau aelodau.

# Adroddiad manwl

## O ganlyniad i adroddiadau allanol, mae'r Cyngor wedi cyflwyno polisïau a gweithdrefnau sydd wedi gwella ymwybyddiaeth o faterion diogelu ond nid yw wedi ymdrin ag achosion sylfaenol methiannau

**20.** Cyfeiriodd adroddiadau'r arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod 2011 at amrywiaeth o faterion gan gynnwys yr angen i'r Cyngor 'gynnal arfarniad cynhwysfawr a thrylwyr o'r holl waith diogelu yn yr adran addysg ac yn ei ysgolion, gan gynnwys cymryd camau brys i unioni diffygion mewn llywodraethu a rheoli diogelu, ynghyd â swyddogaethau cysylltiedig mewn adran adnoddau dynol[5]'. Daeth rheoleiddwyr hefyd i'r casgliad bod y diffygion yn y trefniadau yn hirsefydledig ac yn systemig - a'u bod yn arwydd o 'natur sylfaenol y problemau hyn a methiannau o fewn yr awdurdod[6]'.

**21.** Yn ei datganiad ysgrifenedig dyddiedig 11 Awst 2011, nododd Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru bod methiannau cyflawni. Nododd nad rhagor o bolisïau, rheoliadau, canllawiau ac arolygiadau oedd yr ateb.

**22.** Ym mis Awst 2011, sefydlodd y Prif Weithredwr Banel Diogelu'r Prif Swyddogion a'i gylch gwaith penodol oedd cael adroddiadau monitro allweddol, gan gynnwys y diweddaraf am honiadau newydd o gam-drin proffesiynol, adroddiadau ar ymchwiliadau a oedd yn mynd rhagddynt, ac adroddiadau cydymffurfio o ran geirdaon a gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB). Roedd y panel yn cynnwys cyfarwyddwyr a phenaethiaid unedau canolog ac mae'n cwrdd bob chwe wythnos.

**23.** Cafodd adroddiadau'r arolygiaethau a gyhoeddwyd ym mis Awst 2011 eu hystyried gan yr aelodau etholedig mewn Cyfarfod Eithriadol o'r Cyngor ar 6 Medi 2011. Yn y cyfarfod hwn, eglurodd yr Arweinydd y newidiadau a oedd yn cael eu gwneud i'r strwythur gwleidyddol er mwyn atgyfnerthu atebolrwydd aelodau drwy sefydlu rôl Cabinet benodol mewn perthynas â Diogelu. Cyhoeddodd hefyd y byddai Bwrdd Atebolrwydd a Gwella Aelodau yn cael ei sefydlu (a elwid yn ddiweddarach yn Fwrdd Diogelu Atebolrwydd a Gwella (SAIB)). Mabwysiadodd y Cyngor ei Gynllun Gwella Diogelu Plant (SCIP) yn ystod y cyfarfod hwn. Dengys cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 20 Hydref 2011 mai dim ond nifer fach o'r aelodau a ofynnodd gwestiynau yn herio rhai o'r materion diogelu sylfaenol. Noda'r atebion i'r cwestiynau hynny ffocws ar bolisi ac nid ydynt yn canolbwyntio ar y ffactorau a achosodd y methiannau na sut y gellid ymdrin â hwy yn y SCIP.

---

[5] *Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc yng Nghyngor Sir Benfro*, Estyn, Mehefin 2011

[6] *Ymchwiliad ar y cyd i'r ffordd y rheolir ac yr ymdrinnir â honiadau o gam-drin proffesiynol a'r trefniadau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant mewn gwasanaethau addysg yng Nghyngor Sir Penfro*, Estyn ac AGGCC, Awst 2011

**24.** Roedd y Cyngor yn ymwybodol o'r materion a oedd yn dod i'r amlwg ac wedi paratoi ei SCIP ac wedi cyflwyno cynllun i Weinidogion Cymru, erbyn 9 Medi 2011, o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno. Erbyn mis Mehefin 2012, roedd y Cyngor o'r farn ei fod wedi cwblhau'r camau gweithredu a nodwyd yn y SCIP drwy ei Raglen Gwella Diogelu, a oedd wedi'i strwythuro gan ddefnyddio'r adrannau canlynol:

- Adnoddau Dynol – o dan arweiniad y Pennaeth Adnoddau Dynol
- Democratiaeth ac Atebolrwydd – o dan arweiniad y Pennaeth Polisi a Pherfformiad
- Adolygiad y Bwrdd Diogelu Plant Lleol a Cham-drin Proffesiynol - o dan arweiniad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
- Diogelu o fewn y Gwasanaethau Addysg - o dan arweiniad y Cyfarwyddwr Addysg

**25.** Prif ffocws y SCIP oedd ymdrin â gwendidau gweinyddol a gweithdrefnol. Rydym yn cydnabod bod angen yr holl gamau gweithredu yn y SCIP, a bod angen i'r Cyngor sicrhau bod ganddo bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith. O ganlyniad i ledaenu polisïau a gweithdrefnau a datblygu canllawiau ar rolau a chyfrifoldebau, llwyddwyd i wella ymwybyddiaeth o faterion diogelu ymhob rhan o'r Cyngor.

**26.** Fodd bynnag, cyn paratoi a gweithredu'r camau gweithredu yn y SCIP, ni ofynnodd y Cyngor rai cwestiynau sylfaenol o ran p'un a oedd ffactorau sylfaenol posibl megis pwyslais ar ddiogelu enw da neu orddibynniaeth ar ymddiriedaeth yn llesteirio'r trefniadau diogelu.

**27.** Nododd ein hadolygiad o ymatebion y Cyngor i adroddiadau'r arolygiaethau yn 2011 a 2012 ynghyd â'n hadolygiad o'r SCIP ddull gweithredu a oedd yn seiliedig ar dasgau, sy'n cynnwys rhestru'r materion mewn adroddiadau ynghyd â rhestru'r camau gweithredu y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd mewn perthynas â hwy. Fodd bynnag, datblygodd y Cyngor ei gynlluniau gweithredu, ei bolisïau a'i weithdrefnau heb feithrin dealltwriaeth lawn, yn gyntaf, o'r rhesymau dros y methiannau a nodwyd gan y rheoleiddwyr. Ymddengys fod y Cyngor yn dibynnu gormod ar drefniadau craffu allanol i nodi achosion sylfaenol problemau a'r camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau'r newidiadau angenrheidiol.

**28.** Gwnaethom wahodd yr aelodau etholedig, aelodau o staff a chadeiryddion llywodraethwyr yn Sir Benfro i roi eu barn ar y broses o ddatblygu trefniadau diogelu yn y Cyngor. Roedd yn galonogol cael 106 o ymatebion gan aelodau o staff yn nodi'r pwysigrwydd y mae staff yn ei roi ar drefniadau diogelu. Fodd bynnag, o ystyried pwysigrwydd eu rôl o ran diogelu, roedd yn ddiddorol mai dim ond 10 allan o'r 60 o aelodau a ymatebodd i'n harolwg. Gwnawn sylwadau pellach ar y mater hwn ym mharagraff 80. Roedd ychydig dros hanner yr aelodau o staff islaw lefel uwch swyddogion a ymatebodd o'r farn y bu gwelliant o ran gwell ymwybyddiaeth o drefniadau diogelu a gwell arferion o ran gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a sefydlu Panel Diogelu'r Prif Swyddogion. Fodd bynnag, roedd 41 y cant o'r farn mai dim ond gwelliant rhannol a fu o ran ymwybyddiaeth ac roedd 7 y cant o'r farn mai prin fu'r gwelliant. Nododd y rheini a oedd o'r farn y bu gwelliant rhannol neu mai prin fu'r gwelliant nifer o broblemau. Cyfeiriodd rhai at yr angen i ymdrin â'r ffaith bod rhai uwch reolwyr, yn eu barn hwy, yn 'gwadu' problemau. Cyfeiriodd eraill at bwyslais ar waith

papur yn hytrach na hysbysu staff ar lefel weithredol o'r hyn a gaiff ei ystyried yn ymddygiad derbyniol ac annerbyniol. Nododd uwch swyddogion a'r nifer fach o aelodau etholedig a ymatebodd fod angen cydweithredu mwy effeithiol rhwng gwasanaethau addysg a gwasanaethau cymdeithasol.

**29.** Un maes lle ceir tystiolaeth o newid yw y caiff gwaharddiadau dros dro bellach eu defnyddio tra bydd ymchwiliadau yn cael eu cynnal i achosion honedig o gam-drin proffesiynol. Cydnabu gwaith dilynol gan AGGCC a HMIC ym mis Medi 2012 rywfaint o welliant o ran y ffordd yr ymdrinnir â honiadau o gam-drin proffesiynol ond canfu hefyd fod y broses o reoli achosion yn anghyson. Mae'r Cyngor wedi ceisio atgyfnerthu'r trefniadau hyn drwy lunio gwell canllawiau ar gyfer y cyfarfodydd sy'n ystyried honiadau o'r fath. Gelwir cyfarfodydd a drefnir i drafod honiadau o'r fath yn 'gyfarfodydd strategaeth' ac maent yn cynnwys swyddogion y cyngor yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol eraill fel yr heddlu. Mae'r Cyngor wedi rhoi statws uwch i'r rheolwr gwasanaethau cymdeithasol sy'n cadeirio'r cyfarfodydd sy'n ystyried yr achosion hyn ond daw'r gwaith dilynol diweddar gan AGGCC a HMIC i'r casgliad nad oes gan y rheolwr hwn ddigon o awdurdod i gyflawni ei rôl yn effeithiol.

**30.** Er mwyn cefnogi newid cynaliadwy, mae angen i'r Cyngor sicrhau bod aelodau o staff ac aelodau etholedig yn deall yn llawn yr angen am ymddygiad priodol o fewn eu priod rolau ac y cânt gymorth i arddangos ymddygiad o'r fath. Ym mis Ebrill 2012, dechreuodd y Cyngor a'r PMB ddatblygu Cynllun Gweithredu Traws Wasanaeth (CSAP) i hyrwyddo trefniadau diogelu, atebolrwydd democrataidd, arweinyddiaeth a rheolaeth. Roedd y cynllun hwn yn pwysleisio'r angen i swyddogion ac aelodau ddatblygu eu dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau, ac roedd yn nodi cynlluniau ar gyfer mentora a hyfforddi uwch aelodau er mwyn eu helpu i'w cyflawni.

**31.** Yn wahanol i'r SCIP, mae'r CSAP yn rhoi mwy o fanylion am sut y gellir ategu'r broses o newid drwy hwyluso trafodaethau ac ystyried y mathau dymunol o ymddygiad. Mae'r tabl canlynol yn dangos sut y mae'r CSAP yn ymdrin â materion mewn ffordd fwy dibynadwy na'r SCIP.

Arddangosyn 1: Cymharu'r SCIP a'r CSAP

Mae gan y CSAP ffocws cryfach ar sicrhau dealltwriaeth o faterion diogelu

| Dyfyniad o'r SCIP | Dyfyniad o'r CSAP |
|---|---|
| **Diwygio ac atgyfnerthu rolau a chyfrifoldebau aelodau etholedig**<br>Mae'r SCIP yn cynnwys cyfres o gamau gweithredu ategol sy'n cynnwys:<br>• adolygu ac ailbroffilio rôl yr aelod arweiniol;<br>• sicrhau cyfarfodydd rheolaidd rhwng aelodau arweiniol ac uwch swyddogion gan gynnwys materion amddiffyn plant;<br>• aelodau arweiniol i lunio adroddiadau ddwywaith y flwyddyn;<br>• sicrhau bod pob aelod etholedig yn mynd i sesiynau ymwybyddiaeth a hyfforddiant amddiffyn plant a'i gynnwys fel rhan o'r broses sefydlu ar gyfer aelodau etholedig. | **Atebolrwydd Democrataidd; PMB i:**<br>• gyfarfod ag uwch swyddogion i drafod rolau mewn perthynas ag aelodau'r Cabinet;<br>• cyfarfod â swyddogion i sicrhau bod hyfforddiant rheoli ansawdd yn cael ei ddarparu mewn perthynas ag arferion craffu newydd;<br>• mynd i hyfforddiant craffu;<br>• cyfarfod â'r tîm cymorth craffu newydd i bennu lefel ansawdd ac annibyniaeth;<br>• datblygu cydberthynas fentora/hyfforddi â'r arweinydd newydd ac anelu at helpu aelodau newydd ac aelodau a gaiff eu hailbenodi i'r Cabinet i ddatblygu cydberthynas heriol ag uwch swyddogion. |

*Ffynhonnell: Cynllun Gwella Trefniadau Diogelu Plant Cyngor Sir Penfro (Medi 2011) a Chynllun Gweithredu Traws Wasanaeth Bwrdd Gweinidogol Sir Benfro (Ebrill 2012)*

**32.** Er bod y CSAP wedi'i ddatblygu gan y PMB mewn partneriaeth â swyddogion yn y gwasanaeth addysg, prin oedd y dystiolaeth i awgrymu bod y Cyngor yn integreiddio gweithgarwch CSAP â'r broses o roi camau gweithredu yn y SCIP ar waith.

# Mae'r Cyngor yn gweithredu'n rhy araf o ran ymdrin â materion difrifol megis defnyddio ystafelloedd ystyried ("timeout") ac nid yw'n rhoi polisïau a gweithdrefnau newydd ar waith yn effeithiol

## Bu'r Cyngor yn araf wrth ddatblygu canllawiau a chynnal trafodaethau gyda'i staff proffesiynol, yn enwedig ynghylch defnyddio ystafelloedd ystyried ("timeout")

**33.** Cofnodwyd yn gyhoeddus bod pennaeth un o ysgolion Sir Benfro wedi cael ei gollfarnu o ymosod yn rhywiol ar ferched yn ei ofal ac iddo gael ei garcharu yn 2009. Amlygodd yr achos hwn risgiau penodol ond canfu arolygiadau dilynol na lwyddodd y Cyngor i weithredu'n brydlon i roi cyngor, arweiniad a chymorth priodol i aelodau o staff i'w galluogi i ddiogelu disgyblion. Rydym yn pryderu bod tystiolaeth barhaus fod y Cyngor yn araf wrth ymateb i bryderon diogelu difrifol.

**34.** Cododd cwestiynau am y defnydd priodol o ystafelloedd ystyried mor bell nôl â 2009 ond roedd y camau a gymerwyd ar y pryd yn gul eu ffocws gan olygu nad achubwyd ar y cyfle i ystyried y mater yn ehangach. Efallai y gellid bod wedi osgoi rhai o'r problemau dilynol a gododd ynghylch y defnydd o ystafelloedd o'r fath petai'r cyfle i ymchwilio i unrhyw broblemau posibl gydag ystafelloedd tebyg ym mhob ysgol wedi cael ei gymryd. Yr ymateb ar y pryd oedd canolbwyntio ar yr ystafell benodol dan sylw yn unig a rhoi'r gorau i'w defnyddio fel ystafell ystyried. Comisiynodd y Cyfarwyddwr Addysg ar y pryd ymchwiliad i'r defnydd o'r ystafell hon ym mis Medi 2009 a chyflwynwyd adroddiad ym mis Ionawr 2010. Nid oes unrhyw dystiolaeth, ar ôl nodi mater o arwyddocâd posibl o ran diogelu mewn un lleoliad, bod swyddogion wedi gweithredu'n effeithiol i sicrhau nad oedd unrhyw risgiau tebyg mewn lleoedd eraill. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth gennym fod canllawiau ar ddefnyddio ystafelloedd ystyried wedi cael eu llunio'n brydlon a'u cyflwyno i bob aelod perthnasol o staff yn dilyn yr adroddiad ym mis Ionawr 2010.

**35.** Ni chydnabuwyd yr angen i ystyried y ffordd yr ymdriniwyd â'r materion o ran yr ystafell ystyried yn 2009 ymhellach hyd nes mis Ionawr 2012. Ysgrifennodd Cadeirydd y PMB at yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr ym mis Ionawr 2012, yn cadarnhau ei drafodaeth gyda'r Prif Weithredwr pan amlygodd wendidau yn ymchwiliad y Cyngor yn 2009, a'r materion y dylid eu cynnwys fel rhan o unrhyw ymchwiliad arall. Comisiynodd y Prif Weithredwr ymchwiliad mewnol i'r amgylchiadau o ran comisiynu a defnyddio'r ystafell hon, yn arbennig er mwyn ymchwilio i ymddygiad y swyddogion a ymdriniodd â'r mater. Nid yw'r ymchwiliad hwn wedi'i gwblhau eto.

**36.** Datgelodd digwyddiadau yn ystod mis Mai 2012, ryw wyth mis ar ôl i'r rheoleiddwyr godi pryderon am arferion diogelu, nad oedd y Cyngor yn dal i ddeall natur y defnydd na graddau'r defnydd a wnaed o ystafelloedd ystyried yn ei ysgolion. Nid oedd ganddo ychwaith unrhyw ganllawiau na fframwaith clir ar waith ar gyfer hwyluso trafodaeth ymhlith ymarferwyr ynghylch y defnydd ohonynt.

**37.** Cododd swyddogion yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor bryderon gyda'r PMB am ystafell mewn ysgol arall ym mis Mai 2012. Daeth y mater i'r amlwg i ddechrau drwy sgwrs ar hap rhwng gweithiwr cymdeithasol a'i rheolwr. Ar yr adeg hon. dechreuodd y Bwrdd Gweinidogol a'r Cyngor ymchwiliadau pellach i'r defnydd o ystafelloedd ystyried mewn ysgolion yn Sir Benfro.

**38.** Ymwelodd swyddogion y Cyngor â phob un o'r 68 o ysgolion er mwyn canfod a oedd ystafelloedd o'r fath yno. Wedyn ymwelodd yr hen Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol â 18 o ysgolion lle roedd yr ymweliad cychwynnol wedi esgor ar gwestiynau am addasrwydd ystafelloedd neu'r defnydd ohonynt. Datgelodd cyfweliadau â staff y Cyngor ac aelodau o'r PMB fod rhywfaint o anghytuno i ddechrau ynghylch pa un a oedd ystafelloedd yn briodol ai peidio. Nid oedd canllawiau clir ar gael o hyd o ran cynllunio a defnyddio ystafelloedd. Roedd y ffaith na ddatblygwyd canllawiau o'r fath pan gododd problemau i ddechrau, yn ein barn ni, yn fethiant clir o ran arweinyddiaeth.

**39.** Cynhaliodd arolygwyr Estyn ac AGGCC ymweliadau dirybudd â dwy ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd ddechrau mis Gorffennaf 2012. Y diben oedd cael sicrwydd o ran trefniadau rheoli ymddygiad yn yr ysgolion. Adolygodd yr arolygwyr bolisïau a gweithdrefnau, trafodwyd y defnydd o ystafelloedd, gan geisio canfod a oedd aelodau o staff yn deall materion, archwiliwyd cofnodion a gofynnwyd am farn y disgyblion am drefniadau rheoli ymddygiad.

**40.** Daeth arolygwyr Estyn ac AGGCC i'r casgliad[7] bod staff yn gyffredinol hyddysg am drefniadau rheoli perfformiad a bod ganddynt ddealltwriaeth glir o ran sut y dylid atgyfeirio achosion amddiffyn plant. Fodd bynnag, nododd yr arolygwyr rai methiannau allweddol:

- Nid oedd uwch arweinwyr yn monitro'r broses o roi polisïau ar waith o ddydd i ddydd yn ddigon cadarn - felly nid oeddent yn ymwybodol o'r methiannau y daeth tîm yr arolygiad ar eu traws. Canfu'r arolygwyr anghysondebau o ran rhoi gweithdrefnau ar waith a diffygion o ran cadw cofnodion digonol.
- Roedd gwendidau o ran polisïau 'trin cadarnhaol'. Mae 'trin cadarnhaol' yn cyfeirio at yr hyn y gall athro ei wneud ac na all ei wneud pan fydd yn rhaid iddo ymyrryd yn gorfforol er diogelwch y disgybl ei hun neu ddiogelwch eraill. Er bod polisïau ar waith, nid oeddent yn rhoi digon o esboniad o ran yr hyn y gellid neu na ellid ei wneud mewn argyfwng ac nid oedd staff mor gyfarwydd â'r polisïau hyn o gymharu â pholisi ymddygiad eu hysgol.

---

[7] *Nodyn ymweliad - Rheoli ymddygiad mewn pedair ysgol yn Sir Benfro*, Estyn, Gorffennaf 2012

- Roedd uwch swyddogion addysg yn dibynnu ar benaethiaid i ledaenu polisïau ac nid oedd ganddynt unrhyw ffordd systematig o sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith na bod aelodau o staff yn deall eu cynnwys.

**41.** Ym mis Hydref 2012, nododd adroddiad i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Diogelu'r Cyngor fod canllawiau ar ddefnyddio ardaloedd ystyried/tynnu'n ôl ac ystafelloedd synhwyraidd bellach ar gael a bod trefniadau wedi'u gwneud i drafod y broses o'u rhoi ar waith mewn gweithdy i benaethiaid. Roedd mwy na thair blynedd ers i'r mater godi gyntaf.

## Roedd rhai materion diogelu allweddol a nodwyd gan y rheoleiddwyr ym mis Awst 2011 yn parhau heb eu datrys ym mis Awst 2012

**42.** Ym mis Awst 2011, cyhoeddodd Estyn ac AGGCC adroddiad[8] yn dilyn ymchwiliad ar y cyd ganddynt i'r ffordd y cafodd honiadau o gam-drin proffesiynol eu trin a'u rheoli a threfniadau'r Cyngor ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant o fewn y gwasanaethau addysg. Asesodd rheoleiddwyr y ffordd y cafodd sampl o 25 o ffeiliau achos a ddaliwyd gan wasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau addysg a gwasanaeth adnoddau dynol y Cyngor eu trin. Nododd yr adroddiad hwn fethiannau sylweddol mewn trefniadau a daeth i'r casgliad canlynol:

- Bu diffyg gwaith goruchwylio gan aelodau etholedig a swyddogion ar y lefel uchaf o fewn yr awdurdod mewn perthynas â'r ffordd y cafodd achosion o gam-drin proffesiynol honedig o fewn y gwasanaethau addysg eu rheoli a'u trin.
- Mae'r diffyg trefniadau llywodraethu effeithiol mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn plant yn adlewyrchu'r methiannau penodol o fewn diwylliant yr awdurdod yn gyffredinol. Roedd y diffygion yn hirsefydledig, yn systemig ac yn arwydd o natur sylfaenol y problemau hyn a methiannau o fewn yr awdurdod.

**43.** Yn ogystal â methiannau goruchwylio a llywodraethu, nododd yr adroddiad amrywiaeth eang o wendidau gweithredol a oedd yn cynnwys:

- gwendidau o ran prosesau'r cyfarfodydd strategaeth amddiffyn plant, o ran cadw cofnodion ac mewn rhai achosion, o ran methu â chydnabod goblygiadau ehangach o ran diogelu;
- enghreifftiau o ymdrin â sefyllfaoedd disgyblu yn wael, trefniadau rheoli risg gwan a methiant i ddefnyddio gwaharddiadau fel opsiwn priodol tra'n aros am ymchwiliad;
- goruchwyliaeth wael o drefniadau adnoddau dynol ymhob rhan o'r Cyngor, gan fethu â sicrhau trefniadau recriwtio a dilysu diogel;
- arweinyddiaeth wan gan brif swyddogion gan arwain at gyfathrebu gwael a chydberthnasau gwaith aneffeithiol.

---

[8] *Ymchwiliad ar y cyd i'r ffordd y rheolir ac yr ymdrinnir â honiadau o gam-drin proffesiynol a'r trefniadau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant mewn gwasanaethau addysg yng Nghyngor Sir Penfro*, Estyn ac AGGCC, Awst 2011

44. Ym mis Mai 2012, cynhaliodd AGGCC ac HMIC adolygiad dilynol[9] o'r trefniadau er mwyn asesu effaith ymateb y Cyngor i'r arolygiad cyntaf. Fel rhan o'r adolygiad, aseswyd sampl o achosion ac adolygodd Swyddfa Archwilio Cymru ffeiliau personél cyfatebol yr adran Adnoddau Dynol.

45. Cydnabu'r adolygiad dilynol hwn rywfaint o gynnydd o ran amseroldeb atgyfeiriadau a chyfarfodydd strategaeth cychwynnol; ansawdd ymatebion cychwynnol gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu i honiadau; cyfarfodydd strategaeth canlyniadau yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac angen cydnabyddedig i gynnig gwasanaeth eirioli ac asesiad cychwynnol o angen. Fodd bynnag, nododd hefyd amrywiaeth o faterion nas datryswyd a chynnydd araf mewn meysydd rheoli achosion allweddol.

46. Daeth i'r casgliad nad oedd y Cyngor wedi datblygu trefniadau monitro, sicrhau ansawdd ac atebolrwydd yn effeithiol er mwyn sicrhau bod digon o allu ac adnoddau i ddarparu gwasanaethau neu roi sicrwydd bod arfer diogelu yn gwella. Yn benodol, daeth yr adolygiad dilynol i'r casgliadau canlynol:

- nid oedd yr amrywiaeth o weithgareddau a gynhaliwyd gan y Cyngor wedi arwain at ddadansoddiad cadarn o wybodaeth na dealltwriaeth glir o'r arfer oedd ei angen er mwyn sicrhau gwelliant;
- nid oedd trefniadau monitro, sicrhau ansawdd ac atebolrwydd wedi'u datblygu'n effeithiol;
- nid oedd y broses o roi polisïau newydd ar waith wedi'i hategu gan hyfforddiant aml-asiantaeth er mwyn sicrhau bod pob rhanddeiliad allweddol yn glir yngylch ei gyfraniad i gyfarfodydd strategaeth a'i gyfrifoldebau ar ôl ymchwiliad;
- nid oedd ansawdd gwael cofnodion y cyfarfodydd strategaeth a nodwyd yn flaenorol wedi'i wella ac mae'n parhau i effeithio ar arfer diogelu;
- roedd angen gwella llinellau goruchwylio a chyfathrebu pwysig rhwng gwasanaethau addysg a gwasanaethau cymdeithasol o hyd mewn perthynas â diogelu.

47. Daeth adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddogfennaeth a phrosesau cyfatebol y gwasanaeth Adnoddau Dynol, a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2012, i'r casgliad nad oedd gan y Cyngor systemau gwybodaeth a sicrhau ansawdd digon cadarn ar waith eto er mwyn sicrhau ei fod yn rheoli ac yn goruchwylio prosesau a chanlyniadau'n briodol o ran honiadau o gam-drin proffesiynol. Yn arbennig, roedd y SCIP wedi cynnwys cam gweithredu i roi cyfarwyddyd i wybodaeth gynhwysfawr am bersonel o ran pob aelod o staff sy'n gweithio mewn ysgolion gael ei storio ar ffeil bersonel ganolog, gan gynnwys gwybodaeth am unrhyw gŵyn neu faterion yn ymwneud â phersonel. Nododd y Cyngor fod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau erbyn mis Medi 2011; dengys y paragraffau canlynol na ellir darparu unrhyw sicrwydd o roi'r cyfarwyddyd.

[9] *Cyd-adolygiad o'r Trefniadau i Ddiogelu Plant sy'n Dioddef Camdriniaeth Broffesiynol Honedig yn Sir Benfro*, AGGCC a HMIC, Medi 2012

**48.** Cyn adolygiad ffeiliau Swyddfa Archwilio Cymru, roedd y Cyngor wedi cynnal ei adolygiad ei hun o bob ffeil bersonél mewn perthynas â gwiriadau cyfredol y CRB a geirdaon. Nododd y Cyngor fod gwiriadau cyn-cyflogaeth (ac achosion o adnewyddu dilynol) y CRB a geirdaon digonol ar gael ar gyfer staff cyflogedig a gwirfoddolwyr. Roedd y Cyngor o'r farn bod trefniadau monitro yn ddigonol a'u bod yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor ar yr agweddau hyn ar gyflogi staff. Gwelodd tîm Swyddfa Archwilio Cymru fod y Cyngor yn sicrhau bod gwiriadau cyn-cyflogaeth CRB (a rhai adnewyddu wedi hynny) a geirdaon priodol ar gael ar gyfer staff cyflogedig a gwirfoddolwyr. Nododd ymhellach fod trefniadau monitro digonol ar waith i roi sicrwydd i'r Cyngor ar yr agweddau hyn ar gyflogi staff. Bellach mae gan y Cyngor bolisi o ran pwy all ddarparu geirdaon sefydliadol.

**49.** Nododd adborth a ddarparwyd drwy weithdai a gynhaliwyd gennym â staff y gall fod rhywfaint o anghysondeb o ran eu dealltwriaeth o'r ffordd y caiff gweithdrefnau'r CRB eu cymhwyso. Yn benodol, er bod rhai cyfarwyddiaethau o'r farn bod yn rhaid iddynt wneud cais am wiriad CRB ar wahân ar gyfer pob swydd a ddelir gan aelod unigol o staff, dim ond un gwiriad CRB y mae cyfarwyddiaethau eraill yn gwneud cais amdano fesul aelod o staff, ni waeth sawl swydd a ddelir. Dywedodd y Cyngor wrth dîm Swyddfa Archwilio Cymru fod ganddo reolaeth gorfforaethol dros broses gwneud cais y CRB. Efallai yr hoffai egluro hyn i reolwyr er mwyn sicrhau bod pawb yn deall. Er mwyn hwyluso'r broses o ddarparu geirdaon, datblygodd yr adran Adnoddau Dynol ffurflen newydd o'r enw: 'Crynodeb o'r honiad/pryder amddiffyn plant i'w roi ar ffeil bersonél' a gyflwynwyd ganddi ym mis Medi 2011.

**50.** Yn gyffredinol, lle roedd y ffurflenni hyn i'w gweld yn y ffeiliau personél a adolygwyd, cafwyd gennym eu bod yn cofnodi rhai manylion am honiadau amddiffyn plant perthnasol ond, gyda nifer fach o eithriadau, mai dim ond y rheini a wnaed o fis Medi 2011 ymlaen a gofnodwyd arnynt.

**51.** Cynhaliwyd profion helaeth gennym er mwyn cael cofnod mwy cyflawn a chyfredol o reolaeth gorfforaethol yr achosion hynny lle canfuwyd bod ffeiliau personel yn anghyflawn. Canfu tîm adolygu Swyddfa Archwilio Cymru rywfaint o'r dogfennau/tystiolaeth berthnasol wedi'u lleoli mewn o leiaf tri gwahanol leoliad, gan gynnwys:

- system bersonél electronig yr adran Adnoddau Dynol;
- ffeiliau personel lleol cyfarwyddiaethau;
- cronfeydd data cyfarwyddiaethau lleol nad oes gan reolwyr corfforaethol eraill fynediad parod iddynt.

**52.** Hyd yn oed gan ganiatáu ar gyfer disgresiwn o ran y ffordd y caiff honiad penodol ei reoli, nid oedd y dull gweithredu ar gyfer rheoli achosion, na'r rhesymeg gysylltiedig, bob amser yn cael eu dogfennu'n llawn. Yn yr achosion hynny a adolygwyd lle y gwnaed honiadau amddiffyn plant yn erbyn gweithwyr proffesiynol, nid oedd y ffeiliau personel bob amser yn cynnwys cyfiawnhad dros y camau gweithredu a fabwysiadwyd, ac nid oedd bob amser yn cofnodi pwy a wnaeth y penderfyniad o ran, er enghraifft:

- pa un a ddylid gwahardd cyflogai neu gynnal ymchwiliad disgyblu;
- pwy sy'n cwblhau asesiad risg pan wneir penderfyniad i beidio â gwahardd gweithiwr proffesiynol tra cynhelir ymchwiliad;
- pam y caniatawyd i gyflogeion y gwnaed cyfres o honiadau tebyg yn eu herbyn barhau yn eu swyddi.

**53.** Nod y Cyngor oedd y dylai'r swyddogaeth Adnoddau Dynol gadw data yn ymwneud â diogelu o ran gwiriadau'r CRB a geirdaon. Disgwylir i'r adran Addysg a Gwasanaethau Plant a Gofal Cymdeithasol ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r adran Adnoddau Dynol am nifer yr honiadau proffesiynol a dderbynnir ganddynt a'r cynnydd a wneir o ran rheoli'r honiadau hynny. Fodd bynnag, noda canfyddiadau'r adolygiad nad oes un ffynhonnell gorfforaethol unigol o wybodaeth fanwl gyfredol am gyflogai ac ni ellid nodi statws cyfredol rhai achosion o'r ffeiliau personel yn unig. Felly roedd yn anos olrhain rheolaeth gorfforaethol honiadau diogelu.

**54.** I grynhoi, mae gwaith dilynol a gynhaliwyd gan reoleiddwyr yn ystod 2012 wedi nodi'r canlynol:

- erys materion sylweddol heb eu datrys;
- ceir anghysondeb yn y ffordd y caiff polisïau a gweithdrefnau eu rhoi ar waith;
- mae'r trefniadau rheoli ar gyfer llywio gwelliant yn adweithiol ac yn annigonol.

## Nid yw'r gwasanaethau cymdeithasol a'r adran addysg yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau y caiff trefniadau diogelu gwell eu rhoi ar waith

**55.** Nid yw'r Cyngor wedi ymdrin yn ddigonol â'r trefniadau cydweithredu rhwng rhanddeiliaid mewnol. Cyfeiriodd rhai aelodau a swyddogion y gwnaethom gyfweld â hwy at 'ddatgysylltiad' hanesyddol a pharhaus rhwng y gwasanaeth addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol. Er i ni ddod o hyd i enghreifftiau o staff addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn cydweithio'n effeithiol ar lefel weithredol, gwnaethom hefyd nodi tensiynau rhwng y gwasanaethau hyn. Gellid disgwyl rhywfaint o densiwn, er enghraifft, am fod gwell ymwybyddiaeth o faterion diogelu wedi arwain at gynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau o'r gwasanaeth addysg i'r gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, canfuwyd tystiolaeth gennym hefyd yn awgrymu trefniadau gweithio 'seilo' mwy sefydledig. Er enghraifft, cyfeiriodd staff gwasanaethau cymdeithasol at broses atgyfeirio a oedd yn cael ei threialu mewn dwy ysgol heb ddigon o ymgynghori â staff gwasanaethau cymdeithasol. Er bod y gwasanaethau cymdeithasol yn ymwybodol o fuddiannau posibl y broses newydd, byddai methu â'u cynnwys yn ystod y cyfnod peilot yn sicr yn llesteirio ymdrechion i roi'r broses ar waith. Yn dilyn ymddeoliad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, trosglwyddwyd cyfrifoldebau i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol newydd ym mis Tachwedd 2012. Nod y Cyngor yw y bydd hyn yn helpu i wella trefniadau cydweithredu rhwng y gwasanaethau hyn.

## Prin yw'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor ers mis Ionawr 2012 o ran atgyfnerthu rôl herio a sicrhau aelodau

**56.** Daeth arolygiad arbennig yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Ionawr 2012 i nifer o gasgliadau am drefniadau llywodraethu'r Cyngor:

- roedd gan y Cyngor gefndir o reolaeth sefydlog, stiwardiaeth ariannol dda a dull cyson a chynyddol o sicrhau gwelliant;
- roedd diwylliant o barch ac ymddiriedaeth yn bodoli rhwng y rhan fwyaf o'r Cynghorwyr a swyddogion, gan arwain at gydberthnasau gwaith cynhyrchiol;
- nid oedd digon o eglurder na dealltwriaeth ynghylch rhai rolau a chyfrifoldebau, ac roedd rhywfaint o ddiffyg tryloywder hefyd, gan olygu nad oedd her effeithiol yn nodwedd gyson o drefniadau llywodraethu;
- roedd gorddibyniaeth ar ddulliau rheoli anffurfiol wedi gwanhau atebolrwydd ac wedi arwain at rywfaint o laesu dwylo ac amlygiad i risg.

Mae'r Cyngor wedi dechrau ymdrin â'r materion hyn.

**57.** Nodir yr argymhellion a wnaed ym mis Ionawr 2012 yn Atodiad 1. Gellir eu crynhoi drwy nodi bod angen i'r Cyngor wneud y canlynol:

- gwella goruchwyliaeth wleidyddol a rheoli;
- sicrhau bod pobl yn briodol atebol;
- egluro cyfrifoldebau aelodau ac uwch swyddogion o ran gwneud penderfyniadau a llywodraethu;
- hyrwyddo trefniadau herio effeithiol a rhoi trefniadau sicrhau ansawdd ar waith er mwyn sicrhau bod dulliau rheoli a goruchwylio yn effeithiol.

**58.** Gwnaethom adolygu dogfennau'r Cyngor, gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a'r pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Cyfwelwyd â'r canlynol: yr Arweinydd, Aelod y Cabinet dros Addysg a'r Iaith Gymraeg, Aelod y Cabinet dros Ddiogelu a Gwasanaethau Plant, y cyn Arweinydd, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ym maes Plant a Theuluoedd a Chadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ym maes Diogelu.

**59.** Gwnaethom wahodd pob aelod etholedig i ymateb i holiadur byr neu i gysylltu â thîm yr arolygiad i drefnu ffordd amgen o roi eu barn. Gwahoddwyd swyddogion, penaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr hefyd i ymateb i'r un holiadur. Cynhaliwyd cyfweliadau â'r Prif Weithredwr, y Prif Weithredwr Cynorthwyol, Cyfarwyddwr presennol y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r cyn Gyfarwyddwr, y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant ac uwch reolwyr a staff gweithredol yn y gwasanaeth addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol.

**60.** Roeddem yn edrych am dystiolaeth bod uwch aelodau ac uwch swyddogion yn deall rolau'n glir, bod rolau yn cael eu cyflawni'n effeithiol, a bod prosesau gwybodaeth a sicrhau ansawdd ar gael i helpu aelodau i gyflawni eu rolau yn effeithiol.

**61.** Rydym yn cydnabod, yn dilyn yr etholiad llywodraeth leol ym mis Mai 2012, bod nifer o uwch aelodau cyfredol yn gymharol newydd i'w rôl, ac felly nad ydynt wedi cael llawer o gyfle i ddangos pa mor effeithiol y maent yn cyflawni eu rolau newydd. Fodd bynnag, ar lefel swyddogion, bu rhywfaint o sefydlogrwydd a ddylai fod wedi galluogi i drefniadau sicrhau ansawdd a herio gael eu datblygu. Dylai swyddogion fod wedi sefydlu systemau ar gyfer sicrhau ansawdd (gan gynnwys ymweliadau dirybudd, arsylwi neu archwilio ffeiliau) a dylent fod yn rhoi gwell gwybodaeth i aelodau am effaith y prosesau a'r gweithdrefnau diwygiedig.

**62.** Ers iddo gael ei ethol ym mis Mai 2012, mae’r Arweinydd newydd wedi cymryd camau penodol i ddangos ei ymrwymiad i ymdrin â materion drwy:

- sicrhau cefnogaeth aelodau etholedig i sefydlu Pwyllgor Trosolwg a Chraffu newydd ym maes Diogelu;
- cadw rôl y Cabinet ar gyfer Diogelu a Gwasanaethau Plant;
- cydweithio â Chomisiynydd Plant Cymru er mwyn manteisio ar ei arbenigedd penodol;
- ymddiheuro’n ddiffuant am arferion yr Uned Atgyfeirio Disgyblion yn 2009.

## Mae'r Cyngor wedi gweithredu i egluro priod rolau a chyfrifoldebau aelodau a swyddogion ond nid oes ganddo ddull gweithredu cadarn ar gyfer sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni'n effeithiol

**63.** Mae'r Cyngor yn fwy eglur ynghylch rolau a chyfrifoldebau aelodau etholedig a swyddogion. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno cyfrifoldebau penodol dros ddiogelu ar lefel aelodau. Mae wedi cyflwyno swydd yn y Cabinet ar gyfer Diogelu a Gwasanaethau Plant ac mae ganddo Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ym maes Diogelu. Mae'r Cyngor hefyd wedi cymryd camau i sicrhau bod cyfrifoldebau ac atebolrwyddau penodol yn gliriach ar lefel swyddogion. Roedd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd i'n harolwg o'r farn eu bod yn gliriach ynghylch eu rôl eu hunain mewn perthynas â diogelu a bod gan eu cydweithwyr hefyd ddealltwriaeth well o'u rôl.

**64.** Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn integreiddio'r broses o roi cyfrifoldebau a rolau diogelu ar waith i system arfarnu'r Cyngor. Ni ddaethom o hyd i unrhyw swyddogion yr oedd perfformiad diogelu yn elfen allweddol o'u harfarniad - ac ni ddaethom o hyd i dystiolaeth bod yr hyn a gyflwynwyd fel system arfarnu Adnoddau Dynol gorfforaethol yn cael ei rhoi ar waith yn gyson.

## Nid yw aelodau etholedig wedi herio cynlluniau na'r ffordd y cânt eu rhoi ar waith yn effeithiol

**65.** Er bod y Cyngor wedi cyflwyno cynllun gweithredu erbyn y dyddiad a nodwyd gan Weinidogion Cymru, ni chafwyd cyfle i fyfyrio ar gynnwys y cynllun er mwyn cael sicrwydd y byddai'r camau gweithredu a gynigiwyd yn ddigonol. Yn arbennig, prin yw'r dystiolaeth o fewn cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 6 Medi 2011 bod y Cyngor wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i ddatganiad ysgrifenedig Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ar 11 Awst 2011 a nododd bod methiannau cyflawni. Nododd nad rhagor o bolisïau, rheoliadau, canllawiau ac arolygiadau oedd yr ateb.

**66.** Sefydlodd y Cyngor y SAIB yn ei gyfarfod ar 6 Medi 2011 a chynhaliodd y SAIB ei gyfarfod cyntaf ar 14 Medi 2011. Roedd y Bwrdd hwn yn cynnwys arweinwyr pob grŵp gwleidyddol, aelodau'r Cabinet a Chadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ym maes Plant a Theuluoedd. Mae'r rhan fwyaf o'r aelodau etholedig ar y Bwrdd hwn mewn swyddi allweddol ar hyn o bryd o ran diogelu a chraffu arno, ac felly bydd ganddynt rywfaint o wybodaeth am y materion sy'n wynebu'r Cyngor. Rôl y SAIB oedd pennu cyfeiriad y broses o roi'r SCIP ar waith, monitro cynnydd a chyflwyno adroddiadau i'r Cyngor. Nid oedd y SAIB yn un o bwyllgorau ffurfiol y Cyngor felly rhoddwyd trefniant ar waith y byddai nodiadau ei gyfarfodydd yn cael eu dosbarthu i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ym maes Plant a Theuluoedd.

**67.** Roedd y SAIB yn weithredol tan fis Mehefin 2012 pan gymeradwyodd y SCIP fel dogfen gyflawn gan gadarnhau bod cyfrifoldebau ar waith ar lefel y Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ym maes Diogelu am gyflwyno adroddiadau a monitro gweithgarwch diogelu.

**68.** Yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi 2011 a mis Mehefin 2012, dengys cofnodion y Cyngor bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ym maes Plant a Theuluoedd wedi cynnal chwe chyfarfod. Cyflwynwyd adroddiadau Estyn ac AGGCC yng nghyfarfod mis Medi. Cyflwynwyd y SCIP hefyd - noda'r cofnodion mai ffocws y trafodaethau oedd rhoi'r cynllun ar waith.

**69.** Nid oes unrhyw gofnod cyhoeddus o ddau o'r chwe chyfarfod a gynhaliwyd gan y pwyllgor trosolwg a chraffu. Felly ni allwn ddod i gasgliad o ran p'un a heriodd yr aelodau gynnwys y SCIP neu'r wybodaeth a roddwyd iddynt. Yng nghyfarfod y pwyllgor a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2011, gohiriwyd trafodaeth ar y SCIP gan nad oedd y fersiwn a gyflwynwyd yn gyfredol. Ni ddengys cofnodion bod y SCIP wedi cael ei ystyried eto tan 19 Mehefin 2012. Noda pob adroddiad i'r pwyllgor ar y SCIP gyfran y camau gweithredu a gwblhawyd mewn perthynas â'r amserlenni targed. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnwys unrhyw dystiolaeth o waith dadansoddi ansoddol ac nid yw'r cofnodion yn nodi bod yr aelodau wedi gofyn cwestiynau er mwyn cael sicrwydd bod newidiadau wedi cael eu rhoi ar waith yn foddhaol.

**70.** Ym mis Mehefin 2012, ysgrifennodd Arweinydd y Cyngor at Weinidogion Cymru yn darparu amrywiaeth o wybodaeth, a oedd, yn ei farn ef, yn dangos bod y Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth ymdrin â materion diogelu. Nodwyd y ffaith bod y camau gweithredu yn y SCIP wedi'u 'cwblhau', cyfeiriwyd at y ffaith bod gweithdrefnau Adnoddau Dynol wedi'u hatgyfnerthu a'u bod yn adlewyrchu'r 'arfer gorau', a nodwyd lefelau craffu a herio gan aelodau oll fel tystiolaeth i ategu ei farn. Dengys y canfyddiadau a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn nad oedd honiadau o'r fath yn seiliedig ar dystiolaeth ddibynadwy a bod angen i bob aelod fod yn fwy heriol mewn perthynas â gwybodaeth a gyflwynir iddynt gan eu swyddogion.

## Mae'r hyfforddiant a ddarperir i aelodau wedi gwella'n sylweddol ond mae'r wybodaeth a roddir i aelodau yn annigonol o hyd, ac nid yw'r trefniadau craffu a herio yn ddigon cadarn o hyd

**71.** Roedd y rhan fwyaf o'r aelodau etholedig y gwnaethom gyfweld â hwy yn ystod yr arolygiad hwn yn cydnabod yr angen i wella'r graddau roeddent yn herio ac yn craffu ond yn cydnabod bod angen cymorth penodol arnynt o ran datblygu sgiliau craffu sylfaenol yn ogystal ag o ran gwybod pa gwestiynau i'w gofyn mewn meysydd arbenigol fel diogelu.

**72.** Yn ystod y cyfnod o fis Mehefin i fis Awst 2012, mae'r Cyngor wedi rhoi hyfforddiant i gyfran uchel o'i aelodau i gefnogi eu rôl trosolwg a chraffu - aeth 51 o aelodau i hyfforddiant sylfaenol, aeth wyth aelod i hyfforddiant sgiliau cadeirio ac aeth 42 o aelodau i hyfforddiant sgiliau cwestiynu.

**73.** Rydym yn cydnabod pwysigrwydd yr hyfforddiant hwn i berfformiad aelodau yn eu rolau yn y dyfodol ac mae'r ffocws cynyddol ar hyfforddiant yn galonogol. Fodd bynnag, nid ydym wedi canfod tystiolaeth bod ei effaith yn ddigonol i sicrhau lefelau'r gwelliant sydd ei angen, yn arbennig heb welliannau tebyg i'r wybodaeth a roddir i aelodau.

**74.** Cynhaliwyd dau gyfarfod o’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ym maes Diogelu ers etholiadau Mai 2012. Yn y cyfarfod ar 15 Hydref 2012, rhoddwyd agenda fanwl i'r aelodau ar gyfer y cyfarfod hwnnw a oedd yn cynnwys fframwaith drafft ar gyfer diogelu ym maes addysg. Roedd y ddogfen hon yn nodi cyfres o gamau gweithredu a mesurau arfaethedig y gallai'r aelodau eu defnyddio i farnu effeithiolrwydd camau gweithredu'r Cyngor. Roedd rhai o'r mesurau arfaethedig hyn wedi'u cyfyngu i gadarnhad bod adroddiadau neu systemau ar waith. Prin oedd y mesurau a fyddai'n sicrhau ansawdd ac yn galluogi i aelodau herio'n fwy effeithiol.

**75.** Mewn sawl ffordd, nid yw adroddiadau diweddar yn rhoi mwy o sicrwydd i'r aelodau na'r adroddiad a gyflwynwyd i aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ym maes Plant a Theuluoedd ar 20 Mawrth 2012, a oedd yn rhoi sicrwydd iddynt, ar gam yn ein barn ni, bod cwblhau 70 y cant o'r camau gweithredu yn y SCIP yn arwydd bod y Cynllun Gwella Diogelu yn dangos gwelliant gwirioneddol a chynaliadwy o ran perfformiad.

76. Cafodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ym maes Diogelu hefyd grynodeb o'r argymhellion yn nodyn Estyn yn dilyn ymweliadau â phedair ysgol. Er bod yr adroddiad cryno yn nodi bod yr adroddiad llawn ar wefan Estyn a'i fod yn cynnwys cyfeiriad gwefan Estyn, nid oedd hyn yn galluogi'r aelodau i weld yr adroddiad yn hawdd. Roedd yr adroddiad llawn yn cynnwys llawer mwy o fanylion na'r hyn a nodir yn y crynodeb a gynhyrchwyd gan swyddogion gan roi gwell dealltwriaeth o'r materion y gallai'r aelodau fod wedi'u defnyddio i ddatblygu eu cwestiynau eu hunain.

77. Yn ein barn ni, nid yw'r aelodau yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt o hyd i herio pa un a yw camau gweithredu'r Cyngor yn gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i waith diogelu ai peidio. Roedd adroddiadau cynnar i aelodau yn canolbwyntio ar gwblhau'r camau gweithredu yn y SCIP, gan 'gau' yr adroddiad pan ystyriwyd bod y camau gweithredu wedi'u cwblhau. Roedd yr adroddiadau yn rhoi gwybodaeth i'r aelodau am gynnydd wrth gwblhau tasgau, ond nid oeddent yn rhoi gwybodaeth am gyd-destun, effeithiolrwydd nac effaith y trefniadau newydd. Mae adroddiadau diweddar yn darparu gwybodaeth berthnasol, fwy cyd-destunol i'r aelodau ac yn disgrifio'r prosesau y mae swyddogion yn eu rhoi ar waith. Mae'r adroddiadau yn disgrifio'r camau gweithredu ond mae'r ffaith nad ydynt yn cynnwys mesurau ansoddol ac nad yw'r Cyngor yn profi'r trefniadau diwygiedig yn golygu nad yw'r effaith yn glir. Nid yw cofnodion cyfarfodydd diweddar yn nodi bod yr aelodau wedi bod yn gofyn am well gwybodaeth er mwyn eu galluogi i werthuso effeithiolrwydd camau gweithredu'r Cyngor mewn perthynas â diogelu.

## Lluniwyd dogfennaeth i egluro rolau a rhoddir mwy o wybodaeth i aelodau ond prin fu'r newidiadau a wnaed i ymdrin â'r materion a nodwyd ym mis Ionawr 2012

78. Mae dogfennau a gynhyrchwyd ers mis Ionawr 2012 yn galluogi'r Cyngor i ddangos ei fod wedi egluro cyfrifoldebau uwch aelodau ac uwch swyddogion. Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r Cynghorwyr y gwnaethom siarad â hwy at welliannau yn y wybodaeth a ddarperir i aelodau etholedig. Fodd bynnag, roedd y Cyngor yn dechrau o sail isel iawn o ran yr hyn a roddwyd i aelodau fel mater o drefn, a byddai rhai o'r enghreifftiau o welliant a roddwyd, megis gwell gwybodaeth gan swyddogion am yr hyn sy'n digwydd mewn ward, yn cael eu hystyried yn gyffredin rywle arall.

79. Dengys yr adroddiad hwn fod gan y Cyngor gryn dipyn i'w wneud cyn y gall ddangos ei fod yn cyflawni'r canlynol yn effeithiol:

- darparu goruchwyliaeth wleidyddol a rheoli cadarn;
- sicrhau bod pobl yn atebol;
- darparu her effeithiol;
- rhoi trefniadau sicrhau ansawdd ar waith er mwyn gwneud yn siŵr bod dulliau rheoli a goruchwylio yn effeithiol.

## Lleiafrif o'r aelodau sy'n dangos diddordeb gweithredol mewn sicrhau gwelliant

**80.** Roedd ymateb aelodau i'n holiadur byr ar ddiogelu yn siomedig. Dim ond 10 allan o 60 o aelodau posibl a ymatebodd i'n gwahoddiad i roi eu barn. O ystyried lefel y craffu allanol a wnaed mewn perthynas â'r Cyngor, roeddem wedi disgwyl cyfradd ymateb llawer uwch. Roedd yr holiadur yn rhoi'r cyfle i aelodau etholedig gyflwyno sylwadau am gynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, i gyflwyno sylwadau am eu dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau, i nodi beth oedd wedi gwella yn eu barn hwy a beth oedd angen ei wneud o hyd. Mae'r gyfradd ymateb isel yn golygu na allwn ddarparu adborth dibynadwy am farn aelodau ac o ganlyniad, down i'r casgliad naill ai nad oes gan yr aelodau ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd diogelu neu nad ydynt yn rhoi'r flaenoriaeth angenrheidiol i'w rôl o ran diogelu.

**81.** Dim ond lleiafrif o'r aelodau etholedig a gydnabu'r angen am welliant ac a ymatebodd i'n gwahoddiad i roi eu barn. Mae aelodau'r Cabinet a'r pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar hyn o bryd yn wynebu llif cynyddol o wybodaeth a chynlluniau newydd, ac fel y dengys yr adran uchod, gwelwyd rhywfaint o welliant i wybodaeth o sail isel iawn. Ond nid oes ffocws ar ganlyniadau na mesurau yn y dogfennau hyn sy'n rhoi sicrwydd i'r aelodau bod y newidiadau angenrheidiol yn cael eu cyflawni ac y cânt eu cynnal. Gan nad oes gwybodaeth glir a chadarn, mae angen cryn dipyn o gymhelliant ar aelodau i herio adroddiadau ac mae angen i'r swyddogion roi gwybodaeth ddigonol a dibynadwy iddynt sy'n eu galluogi i werthuso'r gwasanaeth a ddarperir a herio ffyrdd o weithio. Yn ein barn ni, prin yw'r aelodau sy'n dangos y cymhelliant na'r gallu i wneud hynny.

# Atodiad 1

## Argymhellion a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol, Ionawr 2012

| | |
|---|---|
| A1 | Egluro, ar fformat hawdd ei ddeall, rolau llywodraethu a gwneud penderfyniadau, yn benodol y canlynol:<br>• Cabinet<br>• Pwyllgorau craffu<br>• Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol/Archwilio<br>• Tîm Rheoli Corfforaethol |
| A2 | Sicrhau y caiff dogfennau priodol eu cadw o gyfarfodydd, cynigion ac achosion a phenderfyniadau busnes, a'u bod ar gael yn hawdd, er mwyn rhoi sicrwydd bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd briodol a thryloyw. |
| A3 | Cymryd camau i sicrhau bod Cynghorwyr yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt a'u bod yn cael cymorth effeithiol ym mhob rôl; gan gynnwys drwy:<br>• baratoi disgrifiadau o rolau;<br>• darparu hyfforddiant sy'n benodol i rolau;<br>• gwerthuso effeithiolrwydd Cynghorwyr yn eu rolau;<br>• ystyried sut y gellir cefnogi gwaith craffu yn well. |
| A4 | Pennu'n glir, mewn polisi neu brotocol, pa wybodaeth y gall Cynghorwyr ddisgwyl ei chael, pa mor aml a'r dulliau cyfathrebu. |
| A5 | Sicrhau bod rhaglenni craffu yn cyd-fynd â busnes strategol y Cyngor;<br>gan gynnwys:<br>• craffu'n amlach ar gyllidebau a pherfformiad;<br>• craffu ar bolisi ac arferion corfforaethol;<br>• trosolwg o risgiau a chraffu arnynt;<br>• trosolwg o bolisïau ac arferion ym maes cydraddoldebau ac amrywiaeth a chraffu arnynt;<br>• cyhoeddi blaenraglen waith ar gyfer y Cabinet. |
| A6 | Parhau i ddiwygio'r Cyfansoddiad er mwyn bod yn fwy agored a thryloyw ac annog her effeithiol. |
| A7 | Rhoi trefniadau sicrhau ansawdd ar waith er mwyn gwneud yn siŵr bod dulliau rheoli a goruchwylio yn effeithiol. |

*Arolygiad Arbennig, Cyngor Sir Penfro, Swyddfa Archwilio Cymru, Ionawr 2012*

# Atodiad 2

## Methodoleg

Mae'r atodiad hwn yn nodi cwmpas ein harolygiad arbennig a'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym yn ystod ein gwaith.

Ein cwestiwn allweddol oedd p'un a oedd y Cyngor yn gwneud cynnydd digonol wrth ymdrin â'r angen i wella'r broses o reoli a llywodraethu trefniadau diogelu mewn ysgolion. Er mwyn ateb y cwestiwn hwn, gwnaethom ofyn hefyd:

- A yw'r aelodau a'r uwch reolwyr wedi dangos arweinyddiaeth effeithiol wrth ymdrin â'r pryderon a nodwyd gan AGGCC, Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru a'r PMB?
- A yw'r Cyngor wedi llwyddo i reoli'r gwelliannau a'r newidiadau gofynnol yn effeithiol?
- A oes llinellau atebolrwydd a threfniadau adrodd clir ar waith sy'n rhoi sicrwydd y caiff dyletswyddau diogelu eu cyflawni a'u gwerthuso'n effeithiol yn y dyfodol?

Wrth gynnal yr arolygiad arbennig, cynhaliwyd gweithgareddau amrywiol gennym, gan gynnwys gwaith wrth ddesg a gwaith maes ar safle'r Cyngor.

### Adolygiad o ddogfennau

Cynhaliwyd adolygiad gennym o ddogfennaeth sy'n berthnasol i lywodraethu a rheoli trefniadau diogelu. Roedd yr adolygiad yn cynnwys cofnodion cyfarfodydd y Cyngor, amrywiaeth o gynlluniau, polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor ac adroddiadau a gynhyrchwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr eraill.

### Cyfarfodydd a chyfweliadau

Yn ystod ein gwaith maes, cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gennym gyda'r canlynol:

- Cynghorwyr (cabinet, craffu ac anweithredol)
- Aelodau o'r Tîm Rheoli Corfforaethol
- Aelodau o'r PMB
- Penaethiaid gwasanaeth
- Staff gweithredol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau a rhoi cymorth i wasanaethau
- Cynrychiolwyr undebau llafur

Yn ogystal â chyfweliadau a drefnwyd ymlaen llaw, cafodd pob Cynghorydd ac aelod o staff gyfle i gyfarfod ag un o aelodau'r tîm arolygu i drafod unrhyw faterion yr oeddent am eu dwyn i'n sylw.

## Arolwg

Er mwyn cael cynifer o safbwyntiau â phosibl gan y rhai a oedd am gyfrannu, trefnwyd arolwg ar-lein gennym ac anfonwyd dolen mewn negeseuon e-bost at Gynghorwyr, swyddogion, penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr Ysgol. Darparwyd cyfeiriad rhadbost hefyd i'r rheini nad oeddent am gwblhau'r arolwg ar-lein neu nad oeddent yn gallu gwneud hynny. Nid oedd rhaid i ymatebwyr roi eu henwau os nad oeddent yn dymuno.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk